17 Mar 1898

Commercial Hall; bu oddeutu 250 yn ledda, a mawr ganmolir y darpariad-

Wedi gorphen a'r pethau hyn, ymgglwyd i'r Junior Mechanics Hall er l gwledd o'r fath arall, a gwledd yn yn ydoedd. Tua 9 o'r gloch dechreu-wyd y cyfarfod gan y Llywydd David

17 Mar 1898

Some of our daily newspapers are complaining that taxes in Allegheny County are higher than in any other county of the state, and they blame the leaders of the Democratic Party for that. Scores, if not hundreds, of Welshmen work in the tin mills of this city, most of those who have come from the old country. It is sad that only one of every five of them attend any Welsh chapel, nor any other chapel. It is difficult to believe that so many of our compatriots, most of whom having had so many privileges in Wales, are contemptuous of the religious privileges of this city. It is a comfort that those who are in our midst who claim religion do that beyond any doubt, and their hearts are in the cause. W. J. Jones and Thomas H. Lewis spent a lively three days in New York the week before last. [A poem follows] Friends of the musical Morris Stephens are glad to hear that he has been chosen as one of the musical adjudicators at the Wilkesbarre Eisteddfod.

...o yn union er cael gweled y nwyddau, phrynasant gryn lawer ar y telerau agorol a gynygir iddynt gan y perchogion. Maent yr wythnos hon eto am w sylw at eu dodrefn o bob math—yn adeiriau, Byrddau, Chiffoniers, Wardobes, Lounges, Stoves o bob math, welyau Sengl neu Bedroom Suits, Parr Suits, Lace Curtains, Carpets, Matng, Rugs, Oilcloths, Linoleums. Dym-

## PWT O PITTSBURG, PA.

GAN CYMRO.

Pittsburg, Pa., Mawrth 8.—Cwyna rhai o'n newyddiaduron dyddiol fod trethi Sir Allegheny yn uwch nag eiddo unrhyw sir arall yn y dalaeth hon, ac y mae beio ar arweinwyr y blaid Werinol am hyny.

Dywedir fod ugeiniau, os nad canoedd o Gymry yn gyflogedig yn melinau alcan y ddinas hon, y rhan fwyaf o'r rhai ddaeth yma o'r Hen Wlad. Trist yw gorfod tystio nad oes un o bob pump o honynt yn mynychu unrhyw gapel Cymreig, na chapel arall o ran hyny. Anhawdd yw credu fod cynifer o'n cydgenedl, a'r rhai hyny wedi cael cymaint o freintiau yn Nghymru, yn diystyru breintiau crefyddol y ddinas. Y mae yn gysur fod y rhai sydd yn eu mysg yn arddel crefydd yn gwneyd hyny tuhwnt i bob ameuaeth, ac fod eu calonau yn yr achos.

Bu y cyfeillion W. J. Jones a Thomas H. Lewis yn treulio tridiau yn Efrog Newydd Fwyedig yr wythnos cyn y diweddaf. Fel hyn yr ymfflamychodd "Cyfaill" i W. J. Jones ar ei ddyrchafiad i'r swydd o reolwr y Pittsburg Bank for Savings:

Mae torf o Gymry'n esgyn
  Dros lethrau parch a bri,
A Chymro arall welaf
  Yn esgyn gyda ni;
I fyny mewn dylanwad,
  Anrhydedd a mawrhad,
Aeth W. J.; aed eto'n uwch
  Mewn urddas yn ei wlad.

Yn llanc dechreuodd ddringo
  I fyny dros y bryn,
Trwy ganol anhawsderau fyrdd
  I lwyddiant erbyn hyn;
O swydd i swydd esgynodd,
  Hawdd gweled ol ei draed,
Ac ar ariandy Pittsburg, ef
  Yn brif reolwr wnaed.

O gam i gam esgynodd,
  Yn uwch o hyd, o hyd,
Rhagluniaeth fyddo'n gwenu ar
  Ei ymdrech yn y byd;
Digonedd o'i bendithion
  Fo'i ran o ddydd i ddydd,
Ac hwyr brydnawn ei fywyd fo
  Yn frith o flodau ffydd.

Digwmwl fyddo'i fywyd
  Ar fryniau heirdd mawrhad,
Rhinweddau fyrdd gorono'i oes
  O flodau hedd-fwynhad;
Lluosog fo'i flynyddau,
  A llawn o swynion bri,
A'i gyfiawn glod a'i lwyddiant ter
  A fawr edmygwn ni.

Llawen gan luaws cyfeillion y cerddgar Morris Stephens oedd clywed am ei ddetholiad i fod yn un o feirniaid cerddorol Eisteddfod Wilkesbarre. Gallwn broffwydo yn ddibetrus na fydd yn edifar gan y pwyllgor am y detholiad, canys nid yn unig y mae yn ddadganydd diwylliedig, ond y mae yn feirniad craffus, ac yn llais-berffeithydd llwyddianus.

## CHICAGO A'R CYLCHOEDD.

Chicago, Mawrth 5.—Y peth a gafodd fwyaf o sylw a pharch cyffredinol yma yn ddiweddar ydoedd marwolaeth Frances Willard. Pan oedd ei chorff yn gor-

y pwlpud Cymreig yn sefyll yn uwch ac yn deilyngach o barch ac ymddiried na'r chwaer anwyl hon. Sicr ydwyf y bydd Cymry crefyddol America yn llawen o'i gweled a'i chlywed, ac y caiff dderbyniad calonog gan eglwysi o bob enwad yn y wlad. Duw yn rhwydd iddi. —J. W. Williams, gynt o Scranton, Pa.

At Eglwysi Bedyddwyr Cymreig America: Yr ydym ni sydd a'n henwau isod yn dymuno cymeradwyo yn y modd mwyaf calonog ein chwaer Mrs. Brynferch Rees, i sylw holl eglwysi Cymreig yr enwad Bedyddiedig yn yr Unol Dalaethau. Fel darlithyddes enwog ac efengyles wir boblogaidd yn yr Hen Wlad. Dymunwn iddi dderbyniad cynes a chalonog oddiwrth yr holl eglwysi; a bendithied yr Arglwydd ei hymweliad a gwlad machlud haul.—J. Gomer Lewis, Cadeirydd Undeb Bedyddwyr Cymru; J. R. Jones, Pontypridd.

Bridgend, Chwef. 14.—Yn unol a dymuniad taer llu mawr o gyfeillion, y mae ein hanwyl chwaer Mrs. Rhys wedi penderfynu talu ymweliad buan a gwlad fawr y Gorllewin. Dymunem wneyd yn hysbys fod y chwaer yn aelod rheolaidd a ffyddlon yn ein plith fel eglwys yn Nhylagwyn, Cwmgarw, D. C.; hefyd yn bregethwres rheolaidd a phoblogaidd. Credwn fod galluoedd a chyraeddiadau llenyddol "Brynferch" yn adnabyddus i chwi, felly afreidiol dweyd dim am dani yn y cyfeiriad hwn. Hyderwn y derbyniwch hi gyda breichiau agored fel chwaer anwyl yn yr Arglwydd. Bydded i Dduw pob gras ei bendithio hi a chwithau yn mhob rhinwedd a daioni. Arwyddwyd dros yr eglwys, T. B. Phillips, gweinidog; Morgan Griffith, John Thomas, Henry Lee, T. C. Jones, David Williams, John Griffiths, Thomas Morgans, David Llewelyn, George Thomas.

LLONG GYMREIG I KLONDYKE.—Moriwyd yn ddiweddar agerlong newydd yn Queensferry, yr hon sydd wedi ei bwriadu i fyned i Klondyke. Mae ei hadeiladwaith o ddur, a mesura 60 troedfedd o hyd. Ceir ynddi ddarpariaeth i gludo 20 o ddynion, ac offer coginio i 30. Rhifa'r dwylaw 20, oll yn meddu profiad yn y trefedigaethau, a bwriadant fyned i fyny'r afon Yukon am oddeutu 2,000 o filldiroedd. Cludant gyda hwy dri o gychod. Pwysa eu cyflenwad o ymborth 20 tunell, heb gyfrif yr hyn sydd ganddynt ar y fordaith i wlad yr aur.

TYNGED RYFEDD FERRIS.—Rhyfedd fu gyrfa cynllunydd Olwyn Fawr Ffair y Byd yn Chicago. Miloedd, os nid miliynau sydd yn y wlad hon a'r gwledydd fu yn teithio i fyny i'r uchelderau, heb feddwl y buasai ei hadeiladydd yn suddo mor isel yn ei farwolaeth. Bu George W. Ferris farw yn Pittsburg, Pa., y dydd o'r blaen heb ddimai yn ei feddiant. Llosgwyd ei weddillion, ond gomeddodd y llosgwr roddi i fyny ei lwch hyd nes y talwyd am dano gan gyfeillion.

## GWNEWCH EF EICH HUN.

Gellwch wybod gystal a'ch meddyg os yw eich elwlod yn iach neu yn anhwylus. Y ffordd i wybod yw i chwi gymeryd gwydryn neu botel a'i lenwi a'ch dwfr. Os bydd gwaddod—sylwedd

ymseryd... Wis., os Ymdden... hono y... Bethel, dal. Yn G. Evans gyntaf a nghylch rie. Gw acon y mlynedd od oddi gweddill ffyddlaw am ddeg ddiacona mlynedd

Mawrt iddo ef cyfarfu marwola mlwydd aeth ch ill o'i o duwiol, ur i add crefydd, ofer; o'i er. Ga swydd Richard oedd yr yr ysgr ac yn f iog a de o Air D gweled yn y g gwneyd feddian hyny, y wyboda iddo fo fodydd ei ddyd swyddo hyny i' aeth o

Nodw ffyddlo yn beth yn y m neilldu ion yr rywbeth hwnw blaenor Llanwo foddhad addfed; pan yn Sylfaen aberth marw a

Yn he ef a'i gartref, aeth, Il Dydd M luosog hir gar i'w goff went Parch. Traddod gan y Bethel, y Sabb colled eglwys mhell y Duw fy